

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Practis Deintyddol
Belgrave, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg**

**Dyddiad yr Arolygiad: 9 Mawrth
2017**

**Dyddiad Cyhoeddi: 12 Mehefin
2017**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	7
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	14
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg	16
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Belgrave yn 91 Heol Walter, Abertawe, SA1 4QF, ar 9 Mawrth 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd Practis Deintyddol Belgrave yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Belgrave yn darparu gwasanaethau i gleifion yn y Mwmbwls, Abertawe, a'r ardaloedd o amgylch. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Belgrave yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd (un ohonynt yn ddeintydd sylfaen), chwe nyrs ddeintyddol (gan gynnwys dwy o dan hyfforddiant), dau therapydd, un rheolwr practis a dau dderbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Belgrave yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd y cyfleusterau wedi'u cyfarparu'n dda ac yn lân.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Rhaid i'r weithdrefn gwyno gael ei harddangos a bod yn weladwy i'r cyhoedd.
- Mae angen rhoi sylw i'r gweithdrefnau ar gyfer gwirio dyddiadau deunyddiau deintyddol a'r gwaith o drefnu'r droriau offerynnau.
- Mae angen tystiolaeth o'r dystysgrif ar gyfer y gwifriad trydanol.
- Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddarau ei asesiadau risg amgylcheddol.
- Rhaid i'r practis adolygu'r trefniadau ar gyfer storio a chynnal gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys a chyfarpar dadebru cardio-pwlmonaidd sydd yn y ddeintyddfa a'r bag cludo.
- Datblygu polisi sicrhau ansawdd, er mwyn gweithredu proses barhaus ar gyfer archwilio ac adolygu.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 21 holiadur. Yn ddieithriad, nododd cleifion y rhoddid croeso iddynt a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Mae Belgrave yn bractis croesawgar iawn ac mae'r staff yn gwneud ichi deimlo'n gyfforddus ac yn ymlaciedig iawn."

"Mae pawb yn gyfeillgar iawn yn y practis hwn. Rydym wir yn hoffi ein deintydd personol a'i gynorthwyydd."

"Mae'r awyrgylch yn hapus ac yn gadarnhaol bob amser."

"Rwyf wedi mynychu amryw bractisau deintyddol a dyma'r un mwyaf cyfeillgar o gryn dipyn."

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgysiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedodd 20 o'r 21 claf a ymatebodd i holiaduron nad oeddent wedi profi oedi wrth dderbyn eu triniaeth. Dywedodd wyth o'r 21 claf a ymatebodd i holiaduron eu bod yn ansicr ynghylch y trefniadau pe bai argyfwng y tu allan i oriau. Fodd bynnag, gwelsom fod

manylion y rhif ffôn cyswllt brys, manylion y deintyddion ymarfer, ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Dywedodd 20 o'r 21 claf a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd ystafell therapydd ar wahân ar gael lle roedd cleifion yn derbyn sesiynau hybu iechyd arbenigol ac roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd yn y man hwn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, rhoddwyd y practis rhagor o daflenni gwybodaeth i gleifion a hybu iechyd yn y ddau fan aros.

Gofal unigol

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Dywedodd wyth o'r 21 ymatebwr nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Hysbyswyd rheolwr y practis y dylai copïau o'r weithdrefn gwyno gael eu harddangos a bod yn hygyrch ar yr hysbysfwrdd yn y ddwy ystafell aros. Yn ogystal, rhaid i reolwr y practis ddiweddarau gweithdrefnau cwyno'r practis, i sicrhau bod y prosesau ar gyfer cwynion am driniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar wahân ac yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer y ddwy. Dylai'r weithdrefn gwyno gydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.¹ Cytunodd rheolwr y practis i ddiweddarau'r wefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol, ac yn benodol i gynnwys manylion gweithdrefnau cwyno diwygiedig y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i wybodaeth am weithdrefnau cwyno gael ei diweddarau a'i harddangos a rhaid iddi fod yn weladwy yn unol â chanllawiau a safonau.

Canfuom fod cofnod o ganmolïaeth, pryderon a chwynion yn cael ei gynnal. Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion penodedig. Gwnaethom argymhell bod cwynion yn cael eu harolygu a'u harchwilio gan y practis yn rheolaidd, er mwyn arwain y gwersi a ddysgir.

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiaduron y cynigid y dewis iddynt gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol. Roedd gan y practis ddull sefydlog ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod arolygon boddhad cleifion yn cael eu dosbarthu i gasglu adborth ac awgrymiadau gan gleifion. Cynghorwyd y practis i ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer adolygu adborth gan gleifion. Dylid crynhoi unrhyw ganlyniadau, camau neu ddysgu o ganlyniad i adborth cleifion, a rhoi adborth i gleifion er eu gwybodaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu

cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth o'r dystysgrif ar gyfer y gwifriad trydanol. Hefyd, mae angen sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod eitemau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)² yn cael eu storio mewn modd diogel a sicr. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen i finiau gwastraff clinigol fod â chaeadau wedi'u gosod ac mae angen ychwanegu bin gwastraff menywod at y contract gwastraff ar gyfer y tŷ bach i gleifion. Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddarau ei asesiadau risg amgylcheddol. Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd yn cael eu cynnal. Mae angen sicrhau bod y mynediad at yr ystafelloedd dadheintio ar y ddau lawr yn ddiogel.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae angen datblygu system ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben eitemau yn y bag dadebru cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd, mae angen storio meddyginiaeth frys a chyfarpar dadebru cardio-pwlmonaidd mewn un man diogel er mwyn cael mynediad atynt yn hawdd, ac mae angen trefnu system ar gyfer gwirio cofnodion cyffuriau brys yn y ddeintyddfa a'r bag cludo bob wythnos.

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Fodd bynnag, mae angen i'r practis drefnu i wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cynnal ar gyfer yr holl staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Fodd bynnag, mae angen adolygu lleoliad y swits ynysu/rheoli yn yr ystafell driniaeth ar yr ail lawr.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn ôl pob

² <http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm>

golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, canfuom fod rhai deunyddiau deintyddol yr oedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio'n cael eu cadw yn nroriau'r ystafell driniaeth, a gallai droriau'r ystafell driniaeth fod yn fwy trefnus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio'n cael eu gwaredu'n briodol, a bod y droriau offerynnau'n drefnus.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd yr holl dystysgrifau ar gyfer dyfeisiau nwy yn gyfredol. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrif gosod gwifriad trydanol ar gyfer un llawr o'r adeilad. Fodd bynnag, mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth o'r dystysgrif gwifriad trydanol ar gyfer dau llawr arall yr adeilad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis roi tystiolaeth o'r dystysgrif gwifriad trydanol i AGIC.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu y dylai eitemau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd gael eu storio mewn modd diogel a sicr. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, mae angen i finiau gwastraff clinigol fod â chaeadau wedi'u gosod ac mae angen ychwanegu bin gwastraff menywod at y contract gwastraff ar gyfer y tŷ bach i gleifion. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid storio eitemau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd mewn modd diogel a sicr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i finiau gwastraff clinigol fod â chaeadau wedi'u gosod ac mae angen ychwanegu bin gwastraff menywod at y contract gwastraff ar gyfer y tŷ bach i gleifion.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer

diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith. Fodd bynnag, gan y nodwyd nifer o feysydd i'w hystyried, e.e. gwaith cadw tŷ a mynediad i'r seler, lle roedd y cywasgydd yn cael ei storio, yr asesiadau risg cysylltiedig ar gyfer staff, a storio eitemau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd mewn modd diogel, mae angen i'r practis adolygu a diweddarau'r asesiadau risg amgylcheddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau o fewn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

Roedd gan y practis gywasgydd.³ Nid oedd cofnodion wedi'u cadw i ddangos bod y peiriant hwn yn cael ei wirio yn ddyddiol, i gadarnhau ei fod yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd yn cael eu cynnal, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafelloedd neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.

³ Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer at ddiben triniaethau deintyddol.

- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol.
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom fod staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisiau. Gwelsom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,⁴ ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddar ym maes dadheintio bob pum mlynedd. Fodd bynnag, mae angen gwneud mynediad at yr ystafelloedd dadheintio yn fwy diogel, gan nad oedd drws i atal cleifion rhag cael mynediad at yr ardaloedd clinigol hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwneud mynediad at yr ystafelloedd dadheintio yn ddiogel.

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwyp). Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi penodi swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda ar y cyfan, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Fodd bynnag, mae angen rhoi system ar waith ar gyfer gwirio

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

dyddiadau dod i ben eitemau yn y bag dadebru cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd, mae angen storio meddyginiaeth frys a chyfarpar dadebru cardio-pwlmonaidd mewn un man diogel er mwyn cael mynediad atynt yn hawdd, ac mae angen system ar gyfer gwirio cyffuriau brys yn y ddeintyddfa/bag cludo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu'r trefniadau ar gyfer storio a'r systemau ar gyfer gwirio cyffuriau brys a chyfarpar dadebru cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd.

Diogelu

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gan yr holl ddeintyddion a therapyddion wiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Fodd bynnag, canfuom fod angen trefnu neu adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y nyrsys deintyddol a staff perthnasol eraill.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen trefnu gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y nyrsys deintyddol a staff perthnasol eraill.

Offer radiograffeg

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.⁶ Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, mae angen adolygu lleoliad y swits ynysu/rheoli yn yr ystafell driniaeth ar yr ail lawr, i sicrhau bod mynediad yn briodol ac yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu lleoliad y swits ynysu/rheoli yn yr ystafell driniaeth ar yr ail lawr.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a siarad â'r ymarferwyr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Roedd tystiolaeth ar waith i nodi bod trefniadau priodol ar waith i staff gynnal rhai archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom drafod yr amrywiaeth o destunau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru.

⁶ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae gan Bractis Deintyddol Belgrave dîm practis wedi'i hen sefydlu gyda throsiant isel o staff. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y deintydd arweiniol a rheolwr y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis.

Gwnaethom argymhellion ynghylch datblygu'r dogfennau a'r cofnodion ymsefydlu. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi. Roedd arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch a sicrwydd data personol.

Roedd polisiâu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a gwnaethom argymhell bod y rhain yn cael eu llofnodi a'u dyddio a bod dyddiad ar gyfer yr adolygiad nesaf yn cael ei ychwanegu. Mae systemau sicrhau ansawdd da ar waith, fel y gwelwyd o ansawdd y cofnodion cleifion a oedd yn cael eu cadw. Roedd dull Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru ar gyfer Deintyddiaeth yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, dylai rheolwr y practis ddatblygu polisi sicrhau ansawdd y practis ymhellach, i weithredu proses barhaus ar gyfer archwilio ac adolygu fel ffordd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu ei bolisi sicrhau ansawdd ymhellach, er mwyn gweithredu proses barhaus ar gyfer archwilio ac adolygu.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Belgrave yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig, ac o fewn amserlen y cytunir arni. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁷ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁸ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Belgrave

Dyddiad yr Arolygiad: 9 Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Mae'n rhaid i wybodaeth am weithdrefnau cwyno gael ei diweddarau a'i harddangos a rhaid iddi fod yn weladwy yn unol â chanllawiau a safonau.	Safonau lechyd a Gofal 6.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1</i>	Llunio polisïau cwynion ar wahân ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Arddangos y polisïau hyn yn yr ystafelloedd aros lan y grisiau yn ogystal â'r ystafell aros ar y llawr daear. Ychwanegu manylion AGIC at ein polisi cwynion cyffredol. Diweddarau gwefan y practis i gynnwys manylion AGIC.	Vanessa Williams	26 Ebrill 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
9	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio'n cael eu gwaredu'n briodol, a bod y droriau ar gyfer offerynnau'n drefnus.	Safonau lechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (3) (a)	Hyfforddiant staff a gwella sianeli cyfathrebu. Cwblhawyd stocrestr. Trafod yn y cyfarfod nesaf ar 2 Mai 2017 a hefyd dogfennu aelod o staff sy'n gyfrifol am y cam gweithredu ar gyfer gwiriadau pellach wrth i'r cofnodion gael eu cwblhau.	Vanessa Williams	Cwblhawyd
9	Mae angen i'r practis roi tystiolaeth o'r dystysgrif gwifriad trydanol i AGIC.	Safonau lechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d) <i>Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989</i>	Trefnwyd i MJE Electrical Services ddod. Bydd y practis yn cau ar gyfer hyn ar brynhawn 2 Mai, 18 Mai, 1 Mehefin a 9 Mehefin 2017.	Vanessa Williams	31 Awst 2017 wrth i MJE Electrics gwblhau'r gwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<i>(Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)</i>			
9	Rhaid storio eitemau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd mewn modd diogel a sicr.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d) <i>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999</i>	Gosodir clo newydd ar y cwpwrdd storio ar y llawr uchaf. Hyfforddiant staff a chyfathrebu trwy'r cyfarfod staff.	Vanessa Williams	Cwblhawyd
9	Mae angen i finiau gwastraff clinigol fod â chaeadau wedi'u gosod ac mae angen ychwanegu bin gwastraff menywod at y contract gwastraff ar gyfer y tŷ bach i gleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Bydd y practis yn cyfnewid y biniau cyfredol am rai newydd digonol. Archebwyd pum bin gan Initial Medical. Mae bin gwastraff menywod	Vanessa Williams	19 Ebrill 2017 Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		2008 14 (1) (d) <i>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999</i>	wedi'i roi yn y tŷ bach i gleifion ac wedi'i ychwanegu at ein contract cyfredol gyda'r darparwr cyfredol.		
10	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau o fewn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.	Safon Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999</i>	Diwygiwyd taflenni asesu risg cyfredol yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan arolygydd AGIC. Rhoddwyd dogfen asesu risg ychwanegol ar waith. Bydd asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal a bydd perchennog y cam gweithredu'n cael ei nodi.	Vanessa Williams	Cwblhawyd ac yn parhau
10	Mae angen gwneud mynediad at yr ystafelloedd dadheintio yn ddiogel.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau	Bydd y practis yn trefnu i saer pren ddod a newid y drysau cyfredol.	Vanessa Williams	31 Mai 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d) <i>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999</i>			
11	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd yn cael eu cynnal, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.	Safonau Iechyd a Gofal 2.9 <i>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (3) (b)</i> <i>Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000</i>	Gwneud gwiriad gweledol o'r ddau gywasgydd bob dydd a chadw cofnodion o'r gwiriadau hyn.	Kelly Mitcham	Cwblhawyd
11	Rhaid i'r practis adolygu trefniadau storio a systemau ar gyfer gwirio	Safonau Iechyd a Gofal	Bydd y practis yn selio'r blwch cyffuriau brys a'r bag storio	Vanessa Williams	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	cyffuriau brys a chyfarpar dadebru cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd.	2.6 a 2.9 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (2) <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.2.6, 6.6.6</i>	cludo. Bydd y sêl hon yn cael ei gwirio bob wythnos a bydd cofnodion yn cael eu cadw o'r gwiriadau hyn. Bydd y cyffuriau brys, y diffibriliwr a'r ocsigen yn cael eu storio gyda'i gilydd mewn man hygrych a diogel.		
12	Mae angen trefnu cliriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y nyrsys deintyddol a staff perthnasol eraill.	Safonau Iechyd a Gofal 7.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 13 (2)	Cynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl uwch staff sydd wedi gweithio yn y practis am ddeng mlynedd neu fwy. Mae holl aelodau staff newydd/mwy newydd wedi cael	Vanessa Williams	12 Mai 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.		
12	Mae angen adolygu lleoliad y swits ynysu/rheoli yn yr ystafell driniaeth ar yr ail lawr.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999</i> <i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</i>	Symud lleoliad y switsh ynysu.	Vanessa Williams	12 Mai 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
14	Dylai'r practis ddatblygu ei bolisi sicrhau ansawdd ymhellach, er mwyn gweithredu proses barhaus ar gyfer archwilio ac adolygu.	Safonau Iechyd a Gofal 3.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio)	Mae'r practis wedi rhoi rhaglen ar waith ar gyfer archwilio, cynnal a chwblhau hyfforddiant i bob aelod o staff. Bydd y practis yn cau am un prynhawn bob chwe wythnos ar gyfer sesiynau archwilio ac adolygu	Vanessa Williams	2 Mai 2017 a phob chwe wythnos wedyn

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		2008, Adran 16A (1)	gan gymheiriaid. Bydd y practis yn llunio matrices i gofnodi'r holl ddyddiadau a manylion perthnasol fel cymorth gweledol ar gyfer nodi angen.		

Enw (llythrennau bras):

Vanessa Williams

Teitl:

Rheolwr y Practis

Dyddiad:

12 Ebrill 2017